
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

## Argymhellion ddwywaith y flwyddyn
## Diweddariad 1

**Hydref 2022 – Ebrill 2023**

**Adroddiad ar gamau gweithredu i gefnogi cyflawni'r targed i ddiogelu 30% o dir, dŵr croyw a moroedd Cymru erbyn 2030 mewn modd ystyrlon**



**llyw.cymru**

# Cynnwys

1. Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol 1

2. Creu fframwaith i gydnabod ardaloedd enghreifftiol adfer natur a mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal sy'n cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth 4

3. Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30 5

4. Parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach 7

5. Adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau 10

6. Rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy 11

7. Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 x 30 a llywio'r broseso flaenoriaethu camau gweithredu 12

8. Rhoi adferiad natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru 12

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47525, ISBN digidol 978-1-83504-060-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol

## Ehangu a chynyddu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae tua £15 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022/2023 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen rhwydweithiau natur. Mae hyn yn cynnwys cymorth uniongyrchol er mwyn cyflawni drwy Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn anuniongyrchol drwy ddarparu arian cyfatebol ar gyfer dau brosiect LIFE a arweinir gan CNC: Prosiect Corsydd Crynedig LIFE a'r prosiect Pedair Afon ar gyfer LIFE.

- Dyrannwyd £4.5 miliwn i CNC o dan y rhaglen rhwydweithiau natur a chyflawnwyd ystod o brosiectau daearol, dŵr croyw a morol gan CNC drwy ei system cytundeb rheoli tir.

- Dyrannwyd tua £11 miliwn i'r Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gefnogi dwy ar bymtheg o brosiectau canolig a naw o brosiectau ar raddfa fawr drwy'r gronfa rhwydweithiau natur y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ei gweinyddu mewn partneriaeth â CNC a Llywodraeth Cymru.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Rhagwelir y bydd cyllid i gefnogi'r rhaglen rhwydweithiau natur yn cynyddu yn 2023/2024 a 2024/2025 yn unol â'r gyllideb sydd wedi'i chyhoeddi.**

---

**Bydd gwerthusiad o'r rhaglen rhwydweithiau natur yn cael ei ymgorffori yn y contract newydd ar gyfer rhaglen monitro a modelu'r amgylchedd a materion gwledig (ERAMMP).**

---

## Nature Networks Map

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Cwblhau'r gwaith cwmpasu cychwynnol ar gyfer y cynnwys a'r amserlenni er mwyn datblygu'r map rhwydweithiau natur a chwblhau'r diweddariadau a'r diwygiadau i'r set o rwydweithiau ecolegol â blaenoriaeth* daearol wrth baratoi ar gyfer eu cyhoeddi. Bydd y map yn adnodd hanfodol i sicrhau y bydd y gwaith o fuddsoddi yn ein rhaglen rhwydweithiau natur yn sicrhau'r budd mwyaf i'n safleoedd gwarchodedig a'r cysylltiadau rhyngddynt. Yn bwysig iawn, bydd y map hefyd yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar reolwyr tir a'u hymgynghorwyr i helpu i sicrhau y gall ymyriadau drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wneud cyfraniad sylweddol at gydlyniad y rhwydwaith hwn.

- Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth (PENs) i nodi ardaloedd sydd â chysylltiad ecolegol cymharol uchel rhwng safleoedd gwarchodedig ar gyfer ystod o gynefinoedd eang, gan felly ddarparu fframwaith ar gyfer targedu gweithgareddau megis gwella, adfer a chreu cynefinoedd er mwyn adeiladu cyfres o safleoedd bioamrywiaeth gorau sydd wedi'u cysylltu'n weithredol ac sy'n wydn.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Bydd CNC yn bwrw ymlaen â'r map rhwydweithiau natur drwy gyhoeddi haenau tystiolaeth wedi'u mapio, Cam 1, i helpu i flaenoriaethu ceisiadau am gyllid rhwydweithiau natur yn y dyfodol yn ofodol (Haf 2023); ymgysylltu a thrafod i edrych ar wybodaeth ychwanegol yn ymwneud â chyfleoedd posibl o fewn y Map fel ail gam; a chomisiynu gwaith arbenigol i gefnogi datblygu'r map yn y dyfodol, er enghraifft mewn perthynas â senarios newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.**

---

## Porth Safleoedd Gwarchodedig

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae CNC yn datblygu naratif ar gyfer cychwyn ymgysylltu mewnol ac allanol ar gwmpas y porth safleoedd gwarchodedig i ganiatáu i bartneriaid gael mynediad at ddata safleoedd gwarchodedig CNC. Bydd hyn yn hwyluso mwy o gyfranogiad a dull mwy cydweithredol o reoli'r safleoedd hyn.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Sefydlu tîm prosiect porth safleoedd gwarchodedig, ymgymryd â cham ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys grŵp ffocws a fydd wedyn yn cael eu dilyn gan waith i ddadansoddi busnes, y gofynion a'r gwaith datblygu unwaith y bydd cyllid prosiect wedi'i gadarnhau.**

---

## Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Darparwyd £1.1 miliwn pellach o gyllid cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 gan ddod â chyfanswm y gwariant i £2.4 miliwn. Disgwylir i'r adroddiad cyflawni blynyddol gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.
- Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir wedi cael £5.88 miliwn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf: 2023/2024 a 2024/2025.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Cyhoeddir yr holl ddata ar weithgarwch adfer mawndiroedd a ariennir drwy'r rhaglen weithredu genedlaethol ar fawndiroedd ar wefan porth data mawndiroedd ym mis Mehefin. Bydd hyn yn cynnwys gweithgaredd y tair blynedd diwethaf.**

---

## Cyllid Partneriaethau Natur Lleol

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Mae partneriaethau natur lleol wedi cael £3.3 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i gefnogi dulliau partneriaethau cydweithredol lleol. Rydym yn cydnabod bod partneriaethau natur lleol yn allweddol o ran dod â sefydliadau, busnesau a chymunedau ynghyd i gymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol.**

---

## Cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Lansiodd y Gweinidog Newid Hinsawdd broses ymgysylltu cyn ymgynghori parth cadwraeth forol Cymru ym mis Tachwedd 2022 (Datganiad yma).
- Mae'r broses wedi cynnal sawl diwrnod ymgysylltu a chyfleoedd i ryngweithio â'r ardaloedd y ceisir safleoedd i'w dynodi ynddynt.
- Mae gwefan rhaglen wedi'i sefydlu i rannu diweddariadau a gwybodaeth berthnasol am y broses hyd yma (businesswales.gov.uk).

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ymgysylltu â sectorau critigol, megis pysgotwyr a datblygwyr y môr, a all ddarparu data economaidd-gymdeithasol allweddol i'r broses.**

---

**Bydd grŵp gorchwyl a gorffen y Parthau Cadwraeth Morol yn ymgynnull ganol mis Ebrill ac eto ddiwedd yr haf i symud ymlaen a thrafod ffiniau safleoedd posibl wrth aros i'r ymgysylltu cyn ymgynghori gael ei gwblhau.**

---

**Disgwylir ymgynghoriad ffurfiol ar safleoedd arfaethedig i gwblhau'r rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig yng ngwanwyn 2024.**

---

## Atal difrod i nodweddion ardaloedd morol gwarchodedig – gwerthuso rhyngweithiadau posibl offer pysgota â nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae CNC yn parhau i gwblhau'r asesiadau o sensitifrwydd y nodweddion i fathau penodol o offer pysgota.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Mae cyllideb wedi'i dyrannu i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r asesiadau pysgodfeydd hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

---

## Sicrhau bod safleoedd gwarchodedig (rheoli, monitro, dynodi), ar y tir a'r môr, yn flaenoriaeth i CNC

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Cyhoeddi cynllun corfforaethol CNC hyd at 2030: Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd CNC yn defnyddio ei offer a'i bwerau i sicrhau bod Cymru'n camu ymlaen i gyrraedd targedau 2030 ar gyfer hinsawdd a natur.
  - Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein cynllun corfforaethol hyd at 2030 – Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd (cyfoethnaturiol.cymru)

### Adolygu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) i lywio rhaglen hysbysu cyflym i'w halinio â'r Rhaglen Rhwydwaith Natur

**Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith**

Mae CNC yn gwneud gwaith cwmpasu y gwaith o adolygu'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) er mwyn llywio rhaglen hysbysu cyflym.

## 2. Creu fframwaith i gydnabod ardaloedd enghreifftiol adfer natur a mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal sy'n cyflawni canlyniadau bioamrywiaeth

### Sefydlu gweithgor arbenigol

#### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae gwaith wedi dechrau ar sefydlu grŵp gorchwyl ardal enghreifftiol adfer natur a mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal. Prif ddiben y grŵp fydd argymell prosesau a meini prawf ar gyfer cydnabod, monitro ac adrodd ar fesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal ac ardaloedd enghreifftiol adfer natur sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, a'r rhai sy'n ymgeisio am y dynodiadau hyn:
  - Mae aelodau wedi'u nodi, y cylch gorchwyl wedi'i ddrafftio a'r Cadeirydd wedi'i benodi.
  - Mae gwaith hefyd ar y gweill i sefydlu grŵp gorchwyl ardal enghreifftiol adfer natur a mesurau cadwraeth effeithiol eraill ar sail ardal.

### Cynhadledd TarddLe 2022

#### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol ar reoli dalgylch ar 9 Tachwedd 2022 gyda mwy na 70 o randdeiliaid, gan gynnwys llunwyr polisi, rheoleiddwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr yn bresennol. Y prif siaradwr oedd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS.
- Roedd y Gynhadledd, a oedd â'r thema "Galluogi Cydweithio" yn archwilio cyfleoedd a galluogwyr trwy gyfrwng tair sesiwn gyda mynychwyr yn cymryd rhan yn rhyngweithiol fel a ganlyn:
  - i) Themâu yn ymwneud â phroblemau neu faterion sy'n rhwystr i gyflawni'r gwaith.
  - ii) Nodi camau gweithredu yn erbyn y themâu.
  - iii) Cynllunio map trywydd ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu.
- Nodwyd chwe thema a oedd gyda'i gilydd yn rhwystrau i sicrhau ansawdd dŵr cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – y rhain oedd Rheoleiddio; Data; Sgiliau a Gallu; Llywodraethu ac arweinyddiaeth; Diwylliant a Chydweithio; a Chyfathrebu a Naratif.

- Roedd egni a brwdfrydedd mawr gan y cynrychiolwyr, ac roeddent yn cydnabod yr ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru sy'n sicrhau manteision lluosog. Fodd bynnag, roedd pryder bod y diffyg cydgysylltiad yn rhwystr i gyflawni potensial llawn y gweithgarwch. Awgrymodd y cynrychiolwyr fod angen cydgysylltu ar frys i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i weithio ar un cynllun gydag un set o ganlyniadau.

- Lluniwyd adroddiad yn crynhoi'r digwyddiad, a fydd ar gael i'r cynrychiolwyr: TarddLe 22 - Adroddiad Cryno ar y Gynhadledd Tach 22.pdf

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Cynhelir TarddLe23 yn yng nghanol Caerdydd ar 4 Hydref 2023; Mae Dŵr Cymru yn hapus i gynnig y digwyddiad hwn i gefnogi parhad y gweithgareddau ac ymgysylltiad yr archwiliad dwfn.**

---

## 3. Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30

### Cefnogi'r parciau cenedlaethol a'r ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol i ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer adfer natur gan ymgorffori'r rhain mewn cynllunio strategol

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu dwy swydd adfer natur arbenigol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Dechreuodd deiliaid y swyddi ym mis Hydref 2022 ac un o'u tasgau allweddol fydd datblygu fframwaith strategol ar gyfer holl dirweddau dynodedig Cymru i ychwanegu effaith yn gyflym at eu ffocws ar adfer byd natur erbyn 2030. Bydd cynlluniau'n nodi tir sydd â'r potensial i gyfrannu at y 30% gan gynnwys y canlynol:
  - Safleoedd gwarchodedig presennol.
  - Ardaloedd o gynefinoedd â blaenoriaeth presennol y tu allan i'r safleoedd hynny.
  - Ardaloedd eraill lle caiff cynefinoedd eu creu neu eu hadfer.
  - Cysylltiad rhwng safleoedd i gynyddu gwytnwch ecosystemau.
  - Safleoedd/tiroedd eraill a all wneud mwy ar gyfer natur gyda newidiadau i'r modd y cânt eu rheoli.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Bydd cynlluniau'n cynorthwyo cyrff tirweddau dynodedig i sicrhau cyllid a chefnogaeth a fydd yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â ffermwyr, cyllidwyr grant, cyrff partner a mentrau cyllid preifat:**

**Erbyn diwedd Blwyddyn 1 (Rhagfyr 2023): cytuno ar fethodoleg gyson, fframwaith drafft yn dod i'r amlwg.**

**Erbyn diwedd Blwyddyn 2 (Tachwedd 2024): fframwaith wedi'i ddatblygu'n llawn a'i fabwysiadu gan gyrff tirweddau dynodedig.**

Blwyddyn 3 ymlaen (Tachwedd 2024 ymlaen): ei wreiddio mewn amserlenni cynllunio strategol a'i weithredu.

---

## Ail-alinio blaenoriaethau tirweddau dynodedig i wella a chyflymu'r gwaith o gyflawni adferiad byd natur, wedi'i ategu gan bolisïau, adnoddau a chanllawiau wedi'u diweddaru i feithrin gallu ac arbenigedd ac i dargedu gweithgarwch

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

Bydd gan y gwaith y tri nod canlynol:

i) Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y Llywodraeth o sut y gall tirweddau dynodedig gyflawni polisi ar lefel leol.

ii) Cynyddu hyder awdurdodau parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a'u partneriaid; i fwrw ymlaen â'r gwaith o adfer byd natur.

iii) Cyfrannu at dystiolaeth gadarn bod cyrff tirweddau dynodedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adfer byd natur.

---

Mae cael arweiniad gan CNC ar gyfer cynlluniau rheoli parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol wedi'u nodi fel y system allweddol ar gyfer y gwaith, wedi'i ategu gan gyfeiriad polisi clir gan Weinidogion. Dylai canllawiau ganiatáu gwell integreiddio â thargedau a blaenoriaethau eraill, e.e., carbon cyfatebol, plannu coetiroedd a'r cynllun ffermio cynaliadwy mewn cynlluniau rheoli tirweddau dynodedig.

---

Bydd canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer cynlluniau rheoli'r parciau cenedlaethol a'r ardaloedd o harddwch naturiol yn nodi cylch gwaith bioamrywiaeth clir ac yn gofyn am dargedau ac amcanion CAMPUS, gyda mecanweithiau monitro ac adrodd cadarn.

---

Ym mlwyddyn 1, 2023-24, gwneir gwaith ymgysylltu cychwynnol ynghyd â chomisiynu adolygiad o ganllawiau cynlluniau rheoli CNC. Yn 2024-25 bydd y canllawiau'n cael eu cwblhau, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a'u rhannu'n eang.

---

## Datblygu'r adnoddau tystiolaeth a mapio i alluogi tirweddau dynodedig i osod gwaelodlin, targedu a monitro ardaloedd o werth natur uchel y gellid eu sicrhau fel eu cyfraniad at 30 erbyn 30

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

Bydd tirweddau dynodedig yn gweithio i ddylanwadu a llywio fframweithiau monitro cenedlaethol, y cytunwyd arnynt yn adran 7, i'w datblygu gan y grŵp o arbenigwyr monitro a thystiolaeth. Bydd angen dull cyson ar draws yr holl dirweddau dynodedig er mwyn cynllunio, monitro a chynhyrchu data defnyddiol yn well.

---

### Sicrhau bod cyrff Tirweddau Dynodedig yn cael eu hariannu'n ddigonol

#### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio diogelu cyllid craidd awdurdodau parciau cenedlaethol a chynyddu'r cyllid hwnnw dros y cyfnod yn arwain at 2030; er bod yr hinsawdd ariannu bresennol yn un heriol iawn. Dylai awdurdodau parciau cenedlaethol fanteisio ar yr holl gyfleoedd cyllido ar gyfer adfer natur gan gynnwys cynlluniau grant a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a CNC, cyllid preifat priodol a thrwy gynhyrchu incwm masnachol. Dylid sefydlu model ariannu diogel, cynaliadwy a hyblyg ar gyfer yr ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol.

---

### Dynodiad posibl Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru – darpariaeth â blaenoriaeth ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd ac adfer natur

#### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

Mae CNC fel yr awdurdod dynodi statudol, yn bwrw ymlaen â rhaglen i asesu cymhwysedd os bydd parc cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi . Bydd lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac adfer natur yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol newydd yng ngogledd ddwyrain Cymru, a bydd egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu hymgorffori yn y broses asesu.

---

## 4. Parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach

### Canllawiau cadarnach ar gyfer polisi 9 Cymru'r Dyfodol

#### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Pwrpas y prosiect hwn yw defnyddio ymagwedd ragweithiol, ofodol ac ar raddfa tirwedd trwy'r system gynllunio i sicrhau bod gweledigaethau, nodau ac amcanion cynllunio a rheoli tir yn ategu ei gilydd a bod canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn cael eu gwella. Mae'r cerrig milltir hyd yn hyn yn cynnwys y canlynol:
  - Sefydlu grŵp rhanddeiliaid gorchwyl a gorffen penodol i lunio'r prosiect peilot, a fydd yn cynnwys nodi ardal adnoddau naturiol genedlaethol ar Wastadeddau Gwent a chanllawiau cynllunio ategol.
  - Ymgymryd â gwaith cwmpasu cychwynnol gyda'r grŵp gorchwyl a gorffen a datblygu llwybr critigol i arwain y gwaith o reoli'r prosiect, a fydd yn cael ei adolygu'n gyson.
  - Nodi'r pwysau a'r cyfleoedd y mae angen eu hystyried ac sy'n cysylltu â gwaith parhaus ar Wastadeddau Gwent.
  - Nodi gofynion tystiolaeth a gwybodaeth i gefnogi'r gwaith, gan gynnwys bylchau yn y dystiolaeth.

### Y camau nesaf

Parhau i weithio gyda'r grŵp rhanddeiliaid a chyfathrebu'r cynnydd yn y gwaith yn ehangach.

Caffael astudiaeth ar fonitro ôl-adeiladu i lenwi bwlch tystiolaeth a nodwyd.

Crisialu sut y gellir defnyddio'r dystiolaeth i gefnogi a datblygu polisi gofodol ar gyfer Gwastadeddau Gwent er mwyn galluogi i bolisi 9 gael ei weithredu.

Datblygu dull parhaus o werthuso'r prosiect peilot a fydd yn ystyried yr hyn y gellir ei gymhwyso mewn mannau eraill yng Nghymru.

## Cryfhau'r amddiffyniad a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) gan bolisïau fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11

### Cerrig Milltir Allweddol

- Cafodd awdurdodau cynllunio a phawb sy'n cymryd rhan yn y broses gynllunio eu hatgoffa o'r angen i ymgorffori bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yn eu holl gamau gweithredu mewn llythyr gan y prif swyddogion cynllunio a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2022.
- Cyhoeddwyd papur ymgynghori ar newidiadau polisi wedi'u targedu i Bolisi Cynllunio Cymru 11 ar 9 Mawrth 2023.
- Mae'r papur ymgynghori'n manylu ar newidiadau arfaethedig i'r polisi gwarchod SoDdGA (Polisi Cynllunio Cymru 11, paragraff 6.4.17), i ddatgan y dylid osgoi gwaith datblygu arfaethedig o fewn safle dynodedig, oni bai ei fod yn angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle hwnnw, neu pan fo gwaith datblygu yn cael ei ystyried yn angenrheidiol rhaid bwrw ymlaen â hyn mewn dull cyffredinol wedi'i gynllunio drwy'r cynllun datblygu.
- Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 31 Mai 2023.

### Y camau nesaf

Ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd a chynnal unrhyw waith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, yn ôl yr angen.

Cyhoeddi'r polisi terfynol, fel rhan o ddiweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru, yn ddiweddarach yn 2023.

## Cynllunio Gofodol Morol

### Uchafbwyntiau allweddol

- Adroddiad monitro cynllun morol cenedlaethol Cymru 2019 – 2022, a osodwyd gerbron y Senedd ac a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.
- Datganiad ysgrifenedig gan y gweinidog ar "Datblygu cynllunio morol yn dilyn yr adolygiad tair blynedd o gynllun morol cenedlaethol Cymru", a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.
- Derbyniwyd allbynnau drafft ymarfer mapio cyfyngiadau amgylcheddol gan CNC.

- Datganiad technegol cynllunio morol ar gyfer hwylio cychod hamdden, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Datblygwyd dau ddatganiad technegol pellach, ar gyfer ceblau tanfor a phorthladdoedd a llongau.

- Mapio ardaloedd adnoddau strategol morol:

  — Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid.

  — Mapiau adnoddau gwaelodlin wedi'u dosbarthu a'u dilysu gyda rhanddeiliaid, gyda mapiau wedi'u harddangos yn rhyngweithiol ar borth cynllunio morol Cymru.

  — Dechreuwyd gwaith gyda rheoleiddwyr i drafod gofynion canllawiau i gefnogi gweithredu ardaloedd adnoddau strategol.

### Y camau nesaf

**Yn dilyn datganiad ysgrifenedig gan y gweinidog ym mis Mawrth 2023, gweithio gydag arweinwyr polisi a grŵp cyfeirio rhanddeiliaid arbenigol ym maes cynllunio morol i gwmpasu a chynllunio rhaglen mapio cynllunio morol ar gyfer datblygu cynaliadwy.**

**Allbynnau ymarfer mapio cyfyngiadau amgylcheddol CNC i'w derbyn.**

**Gweithio gyda CNC i ddatblygu dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer adfer amgylcheddol.**

**Cyhoeddi datganiadau technegol cynllunio morol ar gyfer ceblau tanfor a phorthladdoedd a llongau.**

**Mapio ardaloedd adnoddau strategol morol:**

**Datblygu canllawiau a deunydd ategol i gyd-fynd â'r ardaloedd adnoddau strategol;**

**Datblygu mapiau ardaloedd adnoddau strategol ar gyfer ymgynghori;**

**Paratoi ar gyfer ymgynghori ar ardaloedd adnoddau strategol drafft yn ddiweddarach yn 2023, gan gynnwys drafftio hysbysiad(au) cynllunio morol posibl ar gyfer ymgynghori.**

## Cynllun ffermio cynaliadwy

- Rydym yn mireinio cynigion cynlluniau ffermio cynaliadwy, gan gynnwys camau gweithredu ar gyfer rheoli cynefinoedd a rheoli safleoedd dynodedig, i adlewyrchu gwaith modelu parhaus ac adborth a dderbyniwyd o ymarfer cyd-ddylunio helaeth. Ymgynghorir ar yr iteriad nesaf o gynigion y cynllun tua diwedd y flwyddyn hon.

- Bydd canlyniadau ein hymarfer cyd-ddylunio yn helpu i lywio pa brosesau gwasanaethau cynghori a chymorth sydd eu hangen i alluogi ffermwyr i fabwysiadu arferion rheoli tir cynaliadwy.

- Bydd taliadau cynnal ar gyfer gwaith rheoli gweithredol a chadarnhaol o gynefinoedd a safleoedd dynodedig yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Rydym wedi cyfathrebu â'r diwydiant ffermio y bydd camau gweithredu megis adfer mawn, plannu coed a llofnodi cynlluniau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a gyflawnwyd cyn ymuno â'r cynllun ffermio cynaliadwy yn cyfrif tuag at gamau gweithredu'r cynllun. Rydym yn annog ffermwyr i fabwysiadu'r arferion hyn yn gynt er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r cynllun a helpu i sicrhau bod y manteision ecolegol yn cael eu gwireddu'n gynt.

# 5. Adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau

## Integreiddio'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen ar gyfer adfer natur (gan gynnwys ecolegwyr, cynllunwyr morol a biolegwyr) yn y strategaeth sgiliau sero net

- Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru decach, gryfach a gwyrddach mae'r cynllun gweithredu sgiliau sero net wedi blaenoriaethu meysydd gweithredu allweddol. Mae hyn yn golygu economi sy'n gweithio i bawb a bydd sgiliau yn alluogwr allweddol wrth i ni drosglwyddo i economi sero net ac un sy'n seiliedig ar natur.

- Gyda lansiad y cynllun gweithredu sgiliau sero net, ar 28 Chwefror, pwysleisiodd y Gweinidog ei fwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gael mwy o fanylion er mwyn gallu llywio mapiau llwybr sectorau a fydd yn y pen draw yn llywio ein cynnig sgiliau. Mae'r gwaith hwnnw eisoes ar y gweill a'n nod yw cyhoeddi hyn yn y misoedd nesaf.

- Mae'r cynllun yn gam cyntaf pwysig i ddeall rôl sgiliau wrth wneud trosglwyddiad cyfiawn i sero net. Mae'r her i gyflawni ein hymrwymiad sero net yn un enfawr a bydd ein hanghenion sgiliau yn y dyfodol yn gofyn am ddull cydweithredol ar draws yr economi gyfan.

- Bydd mapiau llwybr sectorau yn cael eu creu ar gyfer pob un o'r wyth sector allyriadau yng Nghymru. Bydd y mapiau llwybr yn amlinellu cerrig milltir o ran cyfleoedd buddsoddi, newidiadau mewn arferion diwydiant sy'n cyd-fynd â lleihau allyriadau carbon, technolegau newydd, datblygiadau, polisïau, gweithgareddau trawsnewid ac ati; yr holl ffactorau a fydd yn effeithio ar y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r newidiadau allweddol hyn. Bydd y manylion hyn yn caniatáu i waith cynllunio a pholisi sgiliau gael ei flaenoriaethu er mwyn ysgogi a chreu gweithlu'r dyfodol.

## Cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn y rhaglen gyffredin newid ymddygiad newid hinsawdd

- Bydd y strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar yr hinsawdd, a gyhoeddir yr haf hwn, yn pwysleisio bod cysylltiad annatod rhwng yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur a bod colli bywyd gwyllt a mannau gwyllt yn golygu nad oes gennym yr adnoddau i leihau allyriadau carbon ac addasu i'r effeithiau di-droi'n-ôl sy'n deillio o'r newidiadau hyn. Bydd hefyd yn ymrwymo i fap llwybr ar gyfer cyflawni a fydd yn cynnwys camau gweithredu y gallwn ni i gyd eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a bydd yn amlygu'r cyd-fuddiannau a ddaw yn sgil y camau gweithredu hyn i'n hiechyd, ein lles a'n hamgylchedd lleol.

- Ehangu a gwella cynlluniau meithrin capasiti a galluogrwydd i gefnogi'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i gyflymu'r gwaith o gyflawni ar gyfer adferiad byd natur. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar wytnwch ariannol a pharodrwydd i fuddsoddi.

- Mae partneriaeth moroedd ac arfordiroedd Cymru wedi cydweithio i ddatblygu a chytuno ar naratif a rennir, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, sy'n nodi tir cyffredin i bartneriaid gefnogi amgylchedd morol gwydn yng Nghymru. Elfen allweddol yw cefnogi buddsoddiadau cynaliadwy hirdymor a datblygu ffynonellau mwy hirdymor o gyllid cyhoeddus a phreifat sy'n hanfodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion allweddol.

- Lansiwyd cronfa her meithrin gallu arfordirol ym mis Rhagfyr 2022, i feithrin gallu o fewn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wella canlyniadau amgylcheddol ac o bosibl cynyddu'r galw am fwyd môr lleol sydd â rhinweddau cynaliadwyedd cryf. Cymeradwywyd 14 o brosiectau ledled Cymru ac mae'r cyllid Meithrin Gallu yn cael ei estyn yn awr am ddwy flynedd arall.

- Bydd partneriaeth moroedd ac arfordiroedd Cymru yn parhau i ddatblygu camau gweithredu pellach i feithrin gallu i gefnogi ecosystemau morol gwydn, a ddatblygwyd o'r [adroddiad cyfuno tystiolaeth meithrin gallu cymunedau arfordirol | LLYW.CYMRU.]

## Natur a Ni

### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Mae'r rhaglen natur a ni yn nesáu at ddiwedd yr ail gam, ac mae CNC wedi canolbwyntio yn ystod y cam, drwy broses gyfranogi, ar lunio a chytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer natur. Mae'r gwaith hwnnw wedi arwain at sefydlu cynulliad dinasyddion, a gyfarfu deirgwaith yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, i fyfyrio ar pa olwg fydd ar Gymru yn y dyfodol lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd. Mae'n adeiladu ar y cam cyntaf llwyddiannus, yng ngwanwyn 2022, a gasglodd wybodaeth gan bobl yng Nghymru drwy archwilio dyfodol amgen.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Bydd cam olaf Natur a Ni, cam 3, yn gweld lansio gweledigaeth natur a ni yn ystod Haf 2023. Bydd hyn yn creu sylfaen ar gyfer meithrin cydberthnasau newydd er mwyn bwrw ymlaen â chamau gweithredu, ac i gyfrannu at waith i adeiladu dulliau gweithredu ar y cyd drwy ein rhwydweithiau**

# 6. Rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy

## Datblygu safbwynt polisi clir ar fuddsoddiad preifat ym maes adfer byd natur

- Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen cyllid cynaliadwy wedi cwblhau drafft o gyfres o egwyddorion buddsoddi cyfrifol. Y camau nesaf fydd ymgynghori'n ehangach ar y rhain.
- Mae'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar ddatblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth wedi'i gwblhau. Mae hyn yn canolbwyntio ar feithrin capasiti a galluogrwydd o fewn y sector cyflawni a chynyddu lefelau'r buddsoddiad sydd ar gael ar gyfer adferiad byd natur. Y camau nesaf fydd ystyried pa rai o'r ymyriadau a'r modelau peilot posibl fydd yn cael eu blaenoriaethu i'w datblygu.

## Archwilio systemau cyllido cynaliadwy a chyfleoedd i gefnogi gwaith sy'n cyflawni'r elfen forol o 30 erbyn 30

- Trwy'r bartneriaeth moroedd ac arfordiroedd, mae gwaith cwmpasu wedi'i wneud gyda phartneriaid ynghylch cronfa arfaethedig ar gyfer gwella'r môr yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei ddatblygu'n gyflym gyda'r gweithgor buddsoddiad glas.

## 7. Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 x 30 a llywio'r broseso flaenoriaethu camau gweithredu

### Grŵp gorchwyl monitro a thystiolaeth

#### Uchafbwyntiau allweddol

- Mae gwaith wedi dechrau ar sefydlu grŵp gorchwyl monitro a thystiolaeth a fydd yn llywio ein hymrwymiad i ddatblygu fframweithiau monitro a thystiolaeth effeithiol a fforddiadwy i flaenoriaethu camau gweithredu. Mae'r Gweinidog wedi gwahodd Ceri Davies, aelod o grŵp craidd archwiliad dwfn bioamrywiaeth, i arwain y grŵp i sefydlu fframweithiau monitro a thystiolaeth cadarn a phriodol gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith ar gyfer y targedau adfer natur 30 x 30 a'r rhai ehangach.

#### Y camau nesaf

**Rhagwelir y bydd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl monitro a thystiolaeth yn dechrau yn gynnar yn yr haf.**

---

## 8. Rhoi adferiad natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru

### Diwygio'r polisi adnoddau naturiol a'n strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol (y Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar hyn o bryd) i adlewyrchu argymhellion yr archwiliad dwfn a'r fframwaith bioamrywiaeth byd-eang ôl-2020

- Cytunwyd ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang Kunming-Montreal newydd yn COP15, y confensiwn ar amrywiaeth fiolegol ym mis Rhagfyr 2022. Mae hwn yn nodi pedwar nod hirdymor a 23 targed sy'n ceisio atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth er mwyn cyflawni byd sy'n gadarnhaol o ran natur erbyn 2030. O ganlyniad, bydd ein dogfennau strategaeth allweddol yn cael eu diweddaru i amlinellu dull Cymru o gyflawni'r targedau newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwmpasu'r gwaith sydd ei angen gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith diweddaru o fewn y 12 mis nesaf.

### Cryfhau'r gwaith o gyflawni'r polisi adnoddau naturiol ac adran 6 o Ddeddf Amgylchedd Cymru i gefnogi'r gwaith o sicrhau bod cyflawni ar gyfer natur yn waith prif ffrwd ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus.

#### Uchafbwyntiau / cerrig milltir allweddol

- Cyflwyniad a thrafodaeth gydag arweinwyr cynghorau ac arweinwyr pwyllgorau newid hinsawdd ac amgylchedd awdurdodau lleol Cymru i godi ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth a pholisi bioamrywiaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddyletswydd bioamrywiaeth a

chydnerthedd ecosystemau adran 6. Siaradodd Carolyn Thomas, AS Gogledd Cymru, hefyd i amlygu pa newidiadau y gellir eu gwneud i reolaeth ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd er budd bioamrywiaeth, a hefyd i hyrwyddo ymgyrch "Iddyn Nhw".

- Cafwyd cyflwyniadau a sesiwn bwrpasol ar ddyletswydd adran 6 yng Nghynhadledd partneriaeth bioamrywiaeth Cymru 2022 ac yng nghynhadledd dathlu 50 mlwyddiant y gymdeithas clercod cynghorau lleol ar gyfer cynghorau tref a chymuned.

- Cyhoeddi'r crynodeb ac adroddiad manwl dyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau adran 6.

- Cynhaliwyd pedair sesiwn o'r cwrs hyfforddi bioamrywiaeth 'Nabod Natur' ar gyfer staff Llywodraeth Cymru.

- Llywodraeth Cymru a CNC i arwain trwy esiampl drwy arddangos cyfleoedd i sicrhau bod cyflawni ar gyfer natur yn un o'r amcanion â blaenoriaeth ar gyfer ystad goetir Llywodraeth Cymru ac archwilio'r cyfleoedd hyn ymhellach, gan newid arferion sy'n niweidiol i natur pan fo angen.

- Arwain trwy esiampl o ran ein hystad goetir, er enghraifft trwy barhau i reoli gwarchodfeydd natur cenedlaethol i gyflawni gwelliannau i'w cyflwr; gweithio i sicrhau bod yr ystad goetir yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd drwy sicrhau bod ganddi amrywiaeth o rywogaethau, dosbarthiadau oedran, strwythur a threfniadau rheoli; cynnal prosiect peilot trwy ddefnyddio cyllid rhaglen rhwydweithiau natur yn ardaloedd Dyfi, Gwydir / Coed Y Brenin a Dyffryn Gwy i lywio darpariaeth ymarferol yn y dyfodol.

### Y camau nesaf tuag at gwblhau'r gwaith

**Mae CNC yn parhau i arwain drwy esiampl ac yn archwilio cyfleoedd pellach i sicrhau bod cyflawni ar gyfer byd natur yn amcan â blaenoriaeth ar gyfer yr ystad goetir, er enghraifft ehangu'r broses o ddarparu atebion sy'n seiliedig ar natur; ymestyn rhaglenni teneuo i sicrhau bod yr ystad goetir yn gallu gwrthsefyll plâu a chlefydau a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chefnogi bioamrywiaeth; creu coetiroedd newydd drwy'r rhaglen creu coetiroedd; parhau i archwilio'r gwaith o adfer afonydd a gwlyptiroedd; datblygu rhaglen integredig er budd rhywogaethau prin a rhywogaethau dan fygythiad ar yr ystad, a nodi lleoliadau sy'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer cymryd camau gweithredu sy'n canolbwyntio i ddechrau ar sicrhau bod nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) mewn cyflwr ffafriol.**

---

## Corff llywodraethu amgylcheddol a thargedau adfer natur statudol

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gwaith ar gyfer cyflwyno bil yn ystod tymor y Senedd hon i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru a thargedau adfer natur statudol gyda'r bwriad o gyhoeddi papur gwyn yn ystod 2023.

- Ers mis Mawrth 2021, mae asesydd interim wedi bod ar waith yn ystyried pryderon a godwyd am weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r asesydd interim wedi cael 26 o sylwadau hyd yn hyn ac wedi cyhoeddi un adroddiad i Weinidogion Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir gan y DU (*Retained EU Law (REUL) Bill*).